CYFRES B10

amserbeibl

Storïau o'r Beibl – Safon 1

Cofiwch roi eich enw a'ch cyfeiriad yma.

Oed Dyddiad geni

Enw

Cyfeiriad

Enw Arweinydd y Dosbarth

Lliwiwch y lluniau yn y storïau hyn o lyfr Exodus

Cofiwch mai un llythyren yw ch, dd, ff, ng, ll, ph, rh, th

DARLLENWCH
Exodus 7: 1-24

Mae'r stori hon yn sôn am:
Ufuddhau i Dduw.

Stori 1 Moses a'r pla cyntaf



Dro ar ôl tro, dywedodd Moses ac Aaron wrth Pharo, brenin yr Aifft, fod Duw am iddo ryddhau'r Hebreaid oedd yn garcharorion yn y wlad. Ond roedd Pharo yn gwrthod gwrando. Doedd e ddim am ufuddhau i Dduw. Roedd ei galon yn caledu yn erbyn Duw.

Ysgrifennwch enw'r brenin.

P __ __ r __

Ysgrifennwch enw ei wlad.

Y __ A __ __ __ t

Roedd e mor anufudd nes bod Duw yn penderfynu anfon sawl cosb neu 'bla' arno ef a'i bobl.

Y Neil yw enw'r afon fawr yn yr Aifft.

Pan ddaeth y pla cyntaf, trodd holl ddŵr yr afon yn waed. Lladdwyd y pysgod ac roedd y drewdod yn ofnadwy. Ond yn waeth na hynny, doedd neb yn gallu cael dŵr i'w yfed. Digwyddodd hyn i gyd oherwydd bod Pharo yn gwrthod ufuddhau i Dduw.

Gwrando ar Dduw ac ufuddhau iddo – dyna'r ffordd orau bob tro. Mae gan Dduw lawer o bethau i ddweud wrthym ni yn y Beibl a rhaid i ni ufuddhau i'w orchmynion.

Lliwiwch y llythrennau

"Gwell gwrando"

1 Samuel 15: 22

Enw

DARLLENWCH
Exodus 11: 1-10
12: 1-13

Mae'r stori hon yn sôn am:
Cynllun Duw i achub yr Hebreaid.

Stori 2 Moses a'r pla olaf

Roedd y pla olaf yn waeth o lawer na'r naw arall. Roedd Pharo yn dal i wrthod ufuddhau i Dduw, ac roedd rhywbeth ofnadwy ar fin digwydd. Byddai cyntaf-anedig (mab hynaf) pob un o deuluoedd yr Eifftiaid yn marw ar yr un noson!

Pwy oedd yn gwrthod gwrando ar Dduw?

P __ __ __ __

Pwy fyddai'n marw yn y pla olaf?

Mab h __ __ __ __ pob t __ __ __ __.

Roedd Duw wedi trefnu ffordd i arbed yr Hebreaid (neu'r Israeliaid) rhag y pla ofnadwy hwn.



Roedd pob un o deuluoedd yr Hebreaid i daenu gwaed oen ar ddau bostyn a chapan drws eu tŷ. Yna, roedden nhw i fynd i mewn i'r tŷ ac aros yno drwy'r nos.

"Pan welaf y gwaed, byddaf yn mynd heibio i chi," addawodd Duw. Roedd hynny'n golygu y bydden nhw'n gwbl ddiogel ar noson y pla.

Lliwiwch y llun gan ddefnyddio coch fel arwydd o'r gwaed ar ddau bostyn a chapan y drws.

Cafodd mab hynaf y tŷ ei arbed rhag marw oherwydd roedd yr oen wedi marw yn ei le.

Ydych chi'n gwybod fod y Beibl yn galw Iesu yn "Oen Duw"? Buodd Ef farw dros bob un ohonom. Am iddo Ef wneud hynny, gallwn ni fyw am byth yn y Nefoedd, os ydym yn credu ynddo Ef!

Enw

DARLLENWCH
Exodus 12: 31-39
a 14: 1-31

Mae'r stori hon yn sôn am:
Gallu rhyfeddol Duw.

Stori 3 Moses a'r ddihangfa o'r Aifft

Y noson honno pan fu farw gymaint o bobl yn yr Aifft, anfonodd Pharo am Moses ac Aaron.

"Cymerwch eich pobl, ac ewch allan o'm gwlad," meddai.

Cyn hir, roedd miloedd o Israeliaid ar eu ffordd i gyfeiriad y Môr Coch.

Llanwch y geiriau sydd ar goll.

Meddai'r brenin,

"Cymerwch eich p __ __ __ ac ewch allan o'm g __ __ __ __."

Aeth yr Israeliaid i gyfeiriad y

M __ __ C __ __ __



Cyn hir, newidiodd Pharo ei feddwl. Aeth allan gyda'i fyddin fawr, ar gefn ceffylau a cherbydau, i geisio dod â'r Israeliaid yn ôl. Dechreuodd yr Israeliaid ofni'n arw. O'u blaen roedd y Môr Coch; tu ôl iddyn nhw roedd byddin yr Eifftiaid. Roedd hi'n edrych fel pe baen nhw wedi eu dal mewn magl!

Dywedodd Moses wrthyn nhw am beidio ag ofni, oherwydd byddai Duw'n eu hachub.

Lliwiwch y llythrennau.

"Byddwch gadarn", meddai Moses, "ac edrychwch ar

waredigaeth yr Arglwydd."

Wyddoch chi beth wnaeth Duw? Anfonodd wynt cryf iawn. Chwythodd y gwynt drwy'r nos. Gwthiwyd y dŵr yn ôl gan y gwynt. Roedd Duw wedi gwneud llwybr i'r Israeliaid drwy'r môr. Dim ond cerdded drwyddo oedd rhaid! Ceisiodd byddin Pharo eu dilyn, ond daeth y tonnau yn ôl yn sydyn! Erbyn y bore, roedd pob un o'r Eifftiaid wedi boddi yn y Môr Coch!

Roedd gallu rhyfeddol Duw wedi achub yr Israeliaid. Nawr, roedden nhw wir yn rhydd!

Enw

DARLLENWCH
Exodus 15: 1-22

Mae'r stori hon yn sôn am:
Moli Duw.

Stori 4 Moses yn diolch i Dduw



Dyma Miriam, chwaer Moses, yn moli Duw. (gweler adnod 20)

Pan fydd rhywun yn ein helpu, rhaid i ni ddweud "Diolch" bob tro. Roedd Duw wedi achub yr Israeliaid, a fydden nhw fyth eto'n gaethweision i'r Eifftiaid.

Roedden nhw eisiau diolch Iddo, felly dechreuon nhw ganu mawl i Dduw. Mae Duw bob tro'n falch pan fydd pobl yn cofio diolch Iddo am Ei help.

Atebwch y cwestiynau hyn.

1. Beth ddylen ni ddweud pan fydd rhywun yn ein helpu? "D __ __ __ __ __ "

2. Pam aeth yr Israeliaid ati i foli Duw?

Roedd Ef wedi eu h __ __ __ __ __.

Dyma ran o'u cân.

Lliwiwch y geiriau.

"Yr Arglwydd yw fy iachawdwriaeth."

Roedden nhw'n gwybod na fydden nhw fyth wedi gallu achub eu hunain o ddwylo'r Eifftiaid.

Roedd Duw wedi dod i'w gwaredu, felly dyma nhw'n diolch a chanu mawl Iddo.

Mae'r Beibl yn ein dysgu bod angen i ni gael ein hachub oddi wrth ein pechodau. Fel yr Israeliaid, allwn ni ddim achub ein hunain. Rhaid i ni ymddiried yn yr Arglwydd Iesu fuodd farw ar y groes dros ein pechodau. Yna gallwn ni hefyd ddiolch Iddo!

Marciau
(i'w nodi gan yr arweinydd)

Cyfanswm

Cyfanswm Llawn

Cyhoeddwyd yn wreiddiol yn Saesneg gan: © Bible Educational Services. P.O. Box 42, Penarth, CF64 3YD.
Y gwersi ar gael i'w lawrlwytho yn rhad ac am ddim ar www.biblelinkit.com neu ffoniwch 01202 873500 am fwy o wybodaeth. Rhif elusen 1096157

Cyhoeddir y gwersi Cymraeg gan © 2008 Pwyllgor Amserbeibl Cymru.
Addasiadau Cymraeg gan Siân Roberts a Linda Lockley. Golygwyd gan Siân Roberts. Cysodwyd gan Ynyr Roberts.
Cyfres lawn o wersi dros dair blynedd i rai 4-15 oed ar gael i'w lawrlwytho yn rhad ac am ddim o **www.amserbeibl.org**
Am fanylion pellach neu i gyfrannu at y gwaith (rhoddion yn daladwy i 'Amserbeibl') cysylltwch ag:
Aled Davies, Cyngor Ysgolion Sul, Ael y Bryn, Chwilog, Pwllheli, Gwynedd LL53 6SH ☎ 01766 819120